WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol: 2016-17 Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2018
Cyfeirnod y ddogfen: 315A2017-18



Lluniwyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Andy Bruce, Ron Price a Mark Jones o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.


**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**


Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd i'r diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys


## Adroddiad cryno

Gwaith archwilio perfformiad 2016-17 4

Mae'r Awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus 4

Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella 4

Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu a adroddwyd yn ystod 2016-17 6

## Atodiadau

Atodiad 1 – statws yr adroddiad hwn 12

Atodiad 2 – Archwiliad o ddatganiadau ariannol 2015-16 - Argymhellion a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan Adran 25(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 13

Atodiad 3 – argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17 17

# Adroddiad cryno

## Gwaith archwilio perfformiad 2016-17

1 Wrth bennu ehangder y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, ystyriwyd y cyfoeth o wybodaeth a gasglwyd yn sgil archwiliadau ac arolygiadau yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys mecanweithiau Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (yr Awdurdod) ei hun i adolygu a gwerthuso. Yn ystod 2016-17, cynhaliom waith asesu gwelliant ym mhob awdurdod, gan gynnwys cynllunio ac adrodd am welliannau. Mewn rhai awdurdodau, ategwyd y gwaith hwn drwy gynnal archwiliadau lleol yn seiliedig ar risg, a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2016-17.

2 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, yn Nangosyn 2.

## Mae'r Awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus

3 Ar sail y gwaith a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, a hynny yn unig, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn fod y Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2017-18.

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

4 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod a'r heriau o'i flaen, byddai'n anarferol pe na baem yn cael hyd i agweddau y gellid eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu cyflwyno i'r Awdurdod, byddwn yn disgwyl iddo weithredu arnynt ac yn mynd ar drywydd yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion statudol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad statudol ei wneud mae'n rhaid i'r Awdurdod baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn mis, er y caiff yr Archwilydd Cyffredinol ganiatáu mwy o amser yn ôl ei doethineb;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

5 Mae’r archwiliad o ddatganiadau ariannol 2015-16 yn parhau. O ystyried hanes fersiynau blaenorol o ddatganiadau ariannol 2015-16, mae’n hanfodol i’r Awdurdod gymryd camau clir a chytunedig i sicrhau bod drafft y datganiadau ariannol wedi’u paratoi hyd at safon foddhaol, eu bod yn gywir ac yn deg ac yn addas i’w harchwilio. Oherwydd pwysigrwydd y camau yr oedd angen eu cymryd, ar 26 Hydref 2017 cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol dri argymhelliad statudol, fel y nodir isod. Mae llythyr yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 2. Bu’r Awdurdod yn ystyried yr argymhellion yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2017. Yn y cyfarfod hwn, derbyniodd yr Awdurdod yr argymhellion a chytuno ar y camau yr oedd y swyddogion yn eu cymryd. Byddwn yn gwerthuso cynnydd yr Awdurdod yn rhan o’n harchwiliad o ddatganiadau ariannol 2015-16, fydd yn ailgychwyn ym mis Ionawr 2018.

## Dangosyn 1: argymhellion statudol a wnaed yn ystod y flwyddyn

Nodir isod yr argymhellion Statudol a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ystod y flwyddyn.

| Argymhellion statudol a wnaed yn ystod y flwyddyn | |
|---|---|
| A1 | Maen rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru sefydlu camau clir a chadarn ar gyfer adolygu’r datganiadau ariannol ar ôl iddynt gael eu diweddaru, a dylid cymryd y camau hynny’n brydlon fel bo modd canfod diwygiadau’n fuan a’u cywiro cyn cyflwyno fersiwn 14 o’r datganiadau i Swyddfa Archwilio Cymru. |
| A2 | Mae’n rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru lunio dogfen rheoli ansawdd i gefnogi, tystio a chymeradwyo’r adolygiad o’r datganiadau sydd i’w cyflwyno i Swyddfa Archwilio Cymru. |
| A3 | Mae’n rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ddarparu copi o’r camau y mae’n bwriadu eu cymryd er mwyn cynnal adolygiad sicrwydd ansawdd o’r datganiadau diwygiedig â’r trywydd archwilio ategol. |

6 Byddwn yn dechrau archwilio datganiadau ariannol 2016-17 yn cychwyn ar ôl inni gwblhau archwilio datganiadau ariannol 2015-16.

7 Rydym wedi gwneud sawl cynnig ar gyfer gwella, a ailadroddir yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn monitro cynnydd yn erbyn argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, cynigion ar gyfer gwella ac argymhellion perthnasol a wnaed yn ein hadroddiadau cenedlaethol (Atodiad 3) yn rhan o’n gwaith asesu gwelliant.

# Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu a adroddwyd yn ystod 2016-17

## Dangosyn 2: gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu a adroddwyd yn ystod 2016-17

Disgrifiad o'r gwaith a gyflawnwyd ers yr AGB diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, lle bo hynny'n berthnasol.

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Defnydd o adnoddau** | | | |
| Hydref 2017 | **Llythyr archwilio blynyddol 2015-16**<br>Mae ein harchwiliad o gyfrifon 2015-16 yn parhau, felly nid ydym wedi gallu paratoi na chyhoeddi'r llythyrau archwilio blynyddol ar gyfer 2015-16 a 2016-17. | Bydd llythyr archwilio blynyddol 2015-16 yn cael ei gyhoeddi ar ôl cwblhau archwilio datganiadau ariannol 2015-16, a llythyr archwilio blynyddol 2016-17 yn cael ei gyhoeddi ar ôl cwblhau archwilio datganiadau ariannol 2016-17. | Gweler paragraff 5 uchod. |
| Hydref 2017 | **Adolygiad o drefniadau rheoli asedau** | Mae trefniadau llywodraethu clir yn helpu'r Awdurdod i reoli ei asedau tir ac adeiladau yn effeithiol, ond mae lle i wella eto. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:<br>• mae trefniadau llywodraethu clir yn helpu'r Awdurdod i reoli ei asedau tir ac adeiladau, a gellir storio a diweddaru data ar gyflwr asedau yn fwy manwl gywir yn sgil cyflwyno system rheoli asedau newydd;<br>• mae adeiladau'n addas i'r diben ac wedi'u cynnal yn dda, ac mae'r Gwasanaeth yn ymroi i gydweithio a chydleoli â gwasanaethau brys eraill, ac<br>• mae'r Awdurdod yn cynnal gwerthusiad rheolaidd o'i fuddsoddiad mewn tir ac adeiladau, ond nid yw'n mesur cynnydd yn erbyn sefydliadau tebyg. | Atgyfnerthu trefniadau rheoli asedau drwy:<br>C1 Cytuno ar fesurau cyffredin ag Awdurdodau Tân ac Achub eraill Cymru er mwyn asesu dangosyddion allweddol yn gysylltiedig â thir ac adeiladau, fel bo modd cymharu perfformiad ac adnabod tueddiadau sy'n dod i'r amlwg. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Cynlluniau ac adroddiadau gwella** | | | |
| Gorffennaf 2016 | **Archwiliad cynllun gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru**<br>Adolygiad o'r cynlluniau a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod er mwyn cyflawni ei amcanion gwella. | Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cynllunio ar gyfer gwella. | Dim. |
| Tachwedd 2016 | **Asesiad archwilio perfformiad blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru**<br>Adolygiad o asesiad cyhoeddedig yr Awdurdod o'i berfformiad. | Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran adrodd ar welliannau. | Dim. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Cynlluniau ac adroddiadau gwella** | | | |
| Gwaith dilynol 2015-16 | Yn ystod 2015-16, buom yn adolygu trefniadau diogelwch tân yr Awdurdod er mwyn asesu'r modd yr oedd yn cynllunio gweithgarwch; sut yr oedd yn cael ei gyflawni ac a oedd modd gwerthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithgarwch. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Awst 2016.<br>Gwnaed y cynigion canlynol ar gyfer gwella:<br>C1 Ar lefel genedlaethol, datblygu a chytuno ar egwyddorion er mwyn gwerthuso llwyddiant a chanlyniadau ymyraethau, digwyddiadau a gwaith atal cyfredol sydd yn rhoi sylw i:<br>• Berthnasedd - i ba raddau y bydd ymyraethau'n esgor ar ganlyniadau ystyrlon.<br>• Capasiti a gallu - defnydd effeithiol o adnoddau.<br>• Effeithlonrwydd - dull o fesur sut mae adnoddau a mewnbwn yn cael eu trosi'n ganlyniadau a deilliannau.<br>• Effeithiolrwydd - i ba raddau y llwyddwyd i gyflawni ymyraethau, neu y disgwylir eu cyflawni, gan ystyried eu pwysigrwydd cymharol.<br>• Cynaliadwyedd - y budd yn parhau ar ôl cwblhau'r mewnbwn cychwynnol. Y tebygolrwydd o fudd hirdymor.<br>• Gwerth am arian - y cydbwysedd rhwng cost un mewnbwn a mentrau eraill.<br>• Materion cydraddoldeb. | Derbyniodd yr Awdurdod yr adroddiad ar drefniadau diogelwch tân ym mis Hydref 2016.<br>Mae'r Awdurdod wedi gwneud y cynnydd canlynol:<br>C1<br>Mae'r Awdurdod wedi sefydlu ystod o brosesau gwerthuso i fonitro ymyraethau atal er mwyn llywio strategaethau'r dyfodol a sicrhau yr ymgysylltir mewn modd perthnasol ac effeithiol. Ar raddfa genedlaethol, mae gan y Pwyllgor Materion Cenedlaethol (PMC), sef Grŵp Diogelwch Cartref Cymru gyfan, Gynllun Cyflawni ar gyfer 2016-19 sy'n cynnwys y canlynol fel un o'r camau gweithredu **'Ymchwilio i ffyrdd o werthuso canlyniadau darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol, a datblygu ac adnabod meini prawf llwyddo wrth gyflenwi gwasanaeth diogelwch yn y cartref.'** Bydd y gwaith hwn yn parhau hyd fis Mawrth 2018, ond mae'r gwelliannau presennol yn cynnwys gwaith mapio meintiol ac ansoddol ar atgyfeiriadau a grwpiau sy'n agored i niwed, er mwyn sicrhau bod yr holl fathau o risg wedi'u trafod. Ymhlith agweddau eraill, mae hyn yn cynnwys mesur gwerth cymdeithasol gwneud i bob cyswllt gyfrif ac amrywio Gwiriadau Diogelwch yn y Cartref yn erbyn cost y ddarpariaeth. Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn wrth werthuso prosiect yr Awdurdod ar gyfer Byw'n Ddiogel, yn Dda ac yn Annibynnol, gan gynnwys y partner cyfredol. Mae Awdurdodau Tân Cymru yn ystyried y posibilrwydd o adlewyrchu'r enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad ar draws ymgyrchoedd a phartneriaethau yn rhan o ymagwedd Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru Gyfan at ddiogelwch cymunedol. Cesglir gwybodaeth am gydraddoldeb yn rhan o'r holiadurPobl yr ydym yn eu gwasanaethu a ddarperir yn ystod ymyraethau priodol. | Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn rhan o'n hasesiad o welliant yn 2017-18. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Cynlluniau ac adroddiadau gwella** | | | |
| Gwaith dilynol 2015-16 | C2 Ar lefel genedlaethol, sefydlu trefniadau gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) a byrddau iechyd perthnasol er mwyn canfod nifer yr anafiadau heb eu hadrodd yn deillio o danau, a galluogi adnabod pobl a allai fod yn agored i niwed neu eiddo risg uwch. | C2<br>Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHDd) yn cymryd rhan yn y prosiect aml-asiantaeth Byw'n Ddiogel, yn Dda ac yn Annibynnol a arweinir gan y Gwasanaeth Tân. Pan fydd yr ymweliadau wedi'u datblygu'n llawn, bydd WAST a gweithwyr achos BIPHDd yn gallu gwella lefel yr wybodaeth am iechyd, llesiant a byw'n annibynnol sy'n cael ei chyfeirio o bob ymweliad ar hyn o bryd. Yn ystod 2017, sefydlwyd partneriaeth newydd gyda'r Uned Losgiadau yn Ysbyty Treforys, Abertawe, sy'n golygu bod yr Uned Losgiadau'n gallu rhannu gwybodaeth werthfawr am natur ac achos yr anafiadau hyn, yn ogystal â chyfeirio dioddefwyr llosgiadau i'r Gwasanaeth. Ceir protocolau priodol ar gyfer rhannu gwybodaeth i gefnogi trefniadau atgyfeirio lleol â'r Byrddau Iechyd addysgu, a bydd y trefniadau'n cael eu hadolygu yn ystod 2018 er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau yn strwythurau partneriaid yr Awdurdod yn cael eu cipio.<br>Bydd sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) ledled Cymru, ac yn enwedig yn ardal y Gwasanaeth Tân yn creu cyfleoedd ychwanegol i gydweithio â phartneriaid statudol, yn enwedig y byrddau iechyd a phartneriaid y BGLI, fel Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, er mwyn helpu i gyflawni Cynlluniau Llesiant y BGCau. | Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn rhan o'n hasesiad o welliant yn 2017-18. |

<table>
<tr><th>Dyddiad cyhoeddi</th><th>Disgrifiad byr</th><th>Casgliadau</th><th>Cynigion ar gyfer gwella</th></tr>
<tr><td colspan="4">Cynlluniau ac adroddiadau gwella</td></tr>
<tr><td>Gwaith dilynol 2015-16</td><td>C3 Dylai'r Awdurdod:<ul><li>i gyd-daro â gwaith i ddiwygio staff yr Adran Diogelwch Tân Busnes, sefydlu Cynllun Gwasanaeth sydd yn pennu'r weledigaeth ar gyfer cyflawniadau posibl Diogelwch Tân Busnes y Gwasanaeth, a sut y gellir eu gwerthuso; a</li><li>datblygu cynlluniau strategol ar gyfer gweithgarwch diogelwch tân sy'n rhoi sylw i ffrydiau ariannu yn y dyfodol.</li></ul></td><td>C3<br>Mae'r adnoddau ar gyfer yr adran Diogelwch Tân Busnes yn dibynnu ar sawl ffactor, gan gynnwys cynnydd mewn ymddeoliadau naturiol a datblygiad parhaus y staff er mwyn sicrhau bod yr adran yn parhau i weithredu ar gapasiti llawn lle bynnag y bo modd. Er mwyn cyfyngu ar effaith prinder staff, yn enwedig yn achos rolau diogelwch tân y mae angen cymwysterau, gallu a phrofiad arbenigol i'w cyflawni, bydd y Gwasanaeth Tân yn cynnal asesiad er mwyn llenwi swyddi gwag wrth iddynt ddod i'r amlwg. Ar adegau, trosglwyddwyd gweithwyr o Wasanaethau Tân ac Achub eraill i lenwi'r swyddi hynny, ac mae hyn yn sicrhau cyn lleied ag sy'n bosibl o effaith ar barhad darpariaeth gwasanaeth. Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth Tân yn cynnal adolygiad o wasanaethau ei holl swyddogaethau, gan gynnwys yr Adran Diogelwch Tân Busnes. Cefnogir yr adolygiad gan broses arfarnu opsiynau, y disgwylir iddi gael ei chyhoeddi erbyn diwedd 2017, a bydd o bosib yn ceisio canfod arbedion effeithlonrwydd fydd yn ystyriol o drefn staff yr adran.<br>Cyflawnir swyddogaeth Diogelwch Tân Busnes y Gwasanaeth Tân yn seiliedig ar ymrwymiadau statudol y Gwasanaeth Tân. Bydd grŵp sy'n cynnwys pob un o'r tri awdurdod tân yng Nghymru a Phwyllgor Lleihau Risg Gymunedol Cymru yn goruchwylio cynllun cyflawni Diogelwch Busnes Cymru. Pennir y trefniadau a'r amcanion ar raddfa leol a strategol, ac adroddir arnynt yn rheolaidd gerbron Pwyllgor PASC yr Awdurdod Tân, Grŵp Diogelwch Tân Busnes Cymru ac neu gerbron Pwyllgor Lleihau Risg Gymunedol Cymru.<br>Mae strategaeth atal ac amddiffyn tair i bum mlynedd yn cael ei llunio i'r Gwasanaeth Tân, y bwriedir ei chyhoeddi erbyn mis Ebrill 2018. Bydd y strategaeth hon yn creu mwy o ffocws ar yr ystod o drefniadau gwella busnes ar gyfer y swyddogaeth Diogelwch Tân Busnes, a bydd yn cynnwys:<ul><li>Cynlluniau Prif Awdurdod</li><li>Gwerthuso gwell</li><li>Rheoli perfformiad</li><li>Meincnodi perfformiad drwy gynnal adolygiadau cymheiriaid ag Awdurdodau Tân eraill Cymru</li></ul>Bydd proses Cymru Gyfan i Asesu Sicrwydd Gweithredol gan Gymheiriaid yn cefnogi ac yn argymell gwelliannau i'r modd y mae'r Gwasanaeth Tân yn cynnal gweithgarwch diogelwch tân busnes er mwyn hyrwyddo gwelliant.</td><td>Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn rhan o'n hasesiad o welliant yn 2017-18.</td></tr>
</table>

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio** | | | |
| Gorffennaf 2017 | Prif Gynghorydd Tân ac Achub Yn fuan yn 2017, cynhaliodd y Prif Gynghorydd Tân ac Achub adolygiad thematig: **Dysgu gwersi er mwyn osgoi digwyddiadau sy’n peryglu diogelwch - Pa mor dda y mae Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn dysgu gwersi yn sgil digwyddiadau er mwyn gwella diogelwch y cyhoedd ac ymladdwyr tân** | Cynhaliwyd adolygiad thematig o dri Awdurdod Tan ac Achub Cymru, yn canolbwyntio ar ba mor dda yr oeddent yn dadansoddi damweiniau gwirioneddol a damweiniau fu bron a digwydd, ac yn rhannu’r gwersi a ddysgwyd â’u gweithwyr. Mae’r adroddiad yn amlygu meysydd lle ceir arfer da ac yn cyflwyno argymhellion ar gyfer gwella er mwyn sicrhau bod Awdurdodau Tân ac Achub yn adeiladu ar gwersi a nodwyd er mwyn gwella eu prosesau’n barhaus.<br>Mae copi llawn o’r adroddiad ar gael ar wefan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub. | Gwnaed yr argymhellion canlynol:<br>1. Cyn gynted ag y bo’r dadansoddiad cychwynnol o’r bylchau wedi’i gynnal, ar ôl derbyn gwersi i’w dysgu o ffynhonnell allanol, dylai Awdurdodau Tân ac Achub sicrhau bod y broses yn cael ei chofnodi’n gywir. Mae’n hanfodol cofnodi’r broses benderfynu yn gysylltiedig â mabwysiadu, neu beidio mabwysiadu, argymhellion cenedlaethol.<br>2. Dylai Awdurdodau sicrhau bod gwersi ynghylch risg yn cael eu rhaeadru drwy’r sefydliad yn amserol, gan ganolbwyntio ar y staff hynny fyddai’n elwa fwyaf o’r dysgu o safbwynt lleihau risg.<br>3. Dylai Awdurdodau sicrhau bod y cyfryngau a ddefnyddir i gyfathrebu ynghylch gwersi i’w dysgu ymhlith grwpiau amrywiol o staff yn briodol i’w hanghenion, yn nodi’n glir y rhesymau dros ddod â nhw i’w sylw ac yn cael eu cyfleu mewn fformat ac mewn dull fydd yn golygu y bydd y gynulleidfa yn eu cofio. Dylid ystyried cynnwys dulliau cylch cyfan hefyd er mwyn hysbysu’r rheiny sy’n codi materion pan fo newidiadau sylweddol i’w gwneud.<br>4. Dylai Awdurdodau edrych ar gyflwyno systemau sicrwydd ansawdd sy’n profi’n rheolaidd pa mor dda y mae gwersi ynghylch risg yn cael eu derbyn a’u cadw.<br>5. Dylai Awdurdodau sicrhau bod y cyfoeth o wybodaeth a ddaw drwy’r prosesau Ôl-friffio Poeth yn cael ei chofnodi a’i rhannu ble bo hynny’n briodol.<br>6. Dylai Awdurdodau adolygu eu prosesau Asesiadau Risg Dadansoddol i sicrhau eu bod yn addas i’r diben a’u bod yn bwydo i’r prosesau ehangach o gofnodi dysgu sefydliadol.<br>7. Dylai Awdurdodau sicrhau cymaint ag sy’n bosibl o gyfleoedd i ddysgu mewn amgylcheddau critigol o ran risg drwy hyfforddiant realistig, yn enwedig o gofio’r gostyngiad mewn digwyddiadau ‘tân’ dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae hi hefyd yn bwysig bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei gynnal gan bersonél sy’n gweithio gyda’i gilydd yn eu criwiau arferol.<br>8. Mae’r adroddiad yn amlygu sawl maes lle ceir arfer da, a lle mae’r systemau sy’n cael eu datblygu yn arddangos llawer o botensial i’r dyfodol. Argymhellir bod y systemau a’r prosesau hyn, yn enwedig y polisïau hynny ar fonitro a sicrwydd gweithredol, yn cael eu rhannu drwy’r Pwyllgor Materion Cenedlaethol er mwyn mabwysiadu dulliau cyffredin ac osgoi ail-wneud gwaith. |

# Atodiad 1

## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol sy'n edrych tua'r dyfodol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae gan awdurdodau gwella (a ddiffinnir fel cynghorau, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni [eu] swyddogaethau'.

Yn yr asesiad o welliant blynyddol, ystyrir pa mor debygol yw hi y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Yr asesiad hefyd yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Staff Swyddfa Archwilio Cymru sy'n llunio'r adroddiad gwella blynyddol, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r adroddiad yn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 24 o'r Mesur, drwy roi crynodeb o'i waith asesu ac archwilio mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19, sef cyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn (o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17) fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad arnynt i'r awdurdod a Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Rowland Rees-Evans
Y Cadeirydd
Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Pencadlys y Gwasanaeth Tân
Heol Llwyn Pisgwydd
Caerfyrddin
SA31 1SP

**Cyfeirnod:** AJB332/MJ/mh
**Dyddiad cyhoedd:** 26 Hydref 2017

Annwyl Gynghorydd Rees-Evans

### Archwiliad o ddatganiadau ariannol 2015-16 - Argymhellion a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan Adran 25(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

Yr wyf yn ysgrifennu atoch mewn perthynas â datganiadau ariannol yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer 2015-16. Yn gynharach yr wythnos hon, rhoddodd Mark Jones yr wybodaeth ddiweddaraf i aelodau a swyddogion a oedd yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Perfformiad, Archwilio a Chraffu ynglŷn â'm bwriad i ysgrifennu atoch, a'r rheswm am hynny. Deallaf hefyd fod Mark hefyd wedi achub ar y cyfle i roi crynodeb o'r diweddaraf i chi y tu allan i'r Pwyllgor. Rhoddodd Mark yr wybodaeth ddiweddaraf i Kevin Jones yr wythnos diwethaf, felly nid yw'r llythyr hwn yn eich cyrraedd yn annisgwyl.

Yr wyf yn ysgrifennu atoch i amlinellu sawl argymhelliad archwilio, a gyflwynir ar ran yr Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan ei bwerau yn sgil Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ceir disgrifiad ac esboniad ynghylch natur yr argymhellion hyn yn ddiweddarach yn y llythyr hwn, ond i ddechrau hoffwn roi crynodeb o agweddau ar yr archwiliad.

Efallai y byddwch yn cofio o'n trafodaethau ym mis Mehefin, a'm llythyr diweddarach ar 23 Mehefin 2017, ein bod wedi tynnu'n ôl o'r archwiliad ddiwedd Mai ac wedi cytuno ar 11 Medi 2017 fel dyddiad dychwelyd. Er nad oedd yr Awdurdod yn ffafrio tynnu'n ôl, rhoddodd hynny gyfle i swyddogion cyllid ganolbwyntio ar baratoi cyfres ddiwygiedig o ddatganiadau ariannol (fersiwn 12). Ailgychwynnwyd yr archwiliad ar

11 Medi, fel y cynlluniwyd, ond sylweddolwyd yn gyflym fod fersiwn 12 y datganiadau yn cynnwys camddatganiadau o bwys a bod ansawdd y datganiadau hynny'n gyffredinol wael. Gan hynny, ceisiodd y swyddogion gynhyrchu fersiwn 13 o'r datganiadau, a ddarparwyd i ni ar 27 Medi. Fodd bynnag, sylweddolwyd yn gyflym eto fod y datganiadau hyn hefyd yn cynnwys camddatganiadau o bwys, a bod eu hansawdd yn gyffredinol wael.

Wrth drafod ym mis Mehefin, ac yn fy llythyr dilynol, nodais fy mwriad i gwblhau archwiliad 2015-16 erbyn diwedd Hydref 2017 ar yr hwyraf, ac i ardystio'r datganiadau ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan roi barn archwilio briodol (hyd yn oed os oedd hynny'n golygu ardystio datganiadau a oedd yn cynnwys camddatganiadau o bwys, gydag amodau). Roedd fy ffocws ar gau ac ardystio archwiliad 2015-16 ym mis Hydref yn gam hollbwysig er mwyn galluogi'r holl bartïon i symud ymlaen i ddatganiadau ariannol 2016-17, a 2017-18 wedi hynny.

Fodd bynnag, yn ystod yr wythnosau diwethaf, gofynnodd y swyddogion inni beidio cwblhau archwiliad 2015-16 ac ardystio fersiwn 13 y datganiadau ariannol, gan dderbyn fersiwn 14 yn lle hynny. Cynghorwyd swyddogion yn erbyn yr opsiwn hwn, ond serch hynny derbyniwyd y byddai'n well ganddynt gael cyfle i gyflwyno fersiwn 14 i ni.

Gan symud ymlaen ar y sail hon, mae swyddogion wedi rhoi cadarnhad i ni y byddant yn darparu fersiwn 14 y datganiadau ariannol i ni erbyn 2 Ionawr 2018, a ddylai yn eu barn hwy roi digon o amser i amser i unioni'r problemau sylfaenol yn gysylltiedig â'r datganiadau ariannol a gwella eu hansawdd cyffredinol. Oherwydd rhai o'n hymrwymiadau gwyliau dros gyfnod y Nadolig, y bwriad felly yw ailgychwyn yr archwiliad ar 8 Ionawr.

Daw hynny â mi at yr argymhellion y soniais amdanynt ar ddechrau'r llythyr hwn. Os ystyried hanes y fersiynau blaenorol o ddatganiadau ariannol 2015-16, mae'n hollbwysig i'r Awdurdod gymryd camau clir a chytunedig i sicrhau bod fersiwn 14 y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi hyd at safon foddhaol, a'u bod yn gywir ac yn deg, ac yn addas i'w harchwilio. Yn syml, bydd yn rhaid cynnal adolygiad trwyadl ac amserol o fersiwn 14 y datganiadau, a bydd yn rhaid i'r rheolwyr gymeradwyo'r datganiadau hynny, cyn eu cyflwyno i'w harchwilio.

O ystyried pwysigrwydd y camau y mae angen eu cymryd, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yr wyf yn cyflwyno tri argymhelliad statudol o dan Adran 25(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Gellir gweld y Ddeddf drwy'r ddilyn y ddolen hon http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/23/contents.

Dylid ystyried yr argymhellion iod yn unol ag Adran 25(2) o'r Ddeddf. O dan Adran 25(4), mae'n rhaid i'r Awdurdod Tân gyfarfod o fewn mis i ddyddiad y llythyr hwn, ond caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru ymestyn y cyfnod hwn o dan Adran 25(6). Gallaf gadarnhau bod yr Archwilydd Cyffredinol yn fodlon ymestyn y cyfnod, ac i'r Awdurdod ystyried yr argymhellion a nodir yn y llythyr hwn yn y cyfarfod a drefnwyd ganddo ar 11 Rhagfyr 2017.

Gofynnaf i chi gadarnhau a ydych am ystyried y llythyr hwn ar 11 Rhagfyr, neu ar gyfarfod a drefnir yn arbennig cyn y dyddiad hwn.

Yn y cyfarfod a gynhelir, o dan Adran 25(5) y Ddeddf, bydd yn rhaid i'r Awdurdod Tân benderfynu a ddylid derbyn pob argymhelliad; a pha gamau i'w cymryd (os o gwbl) mewn ymateb i bob argymhelliad.

Nodir isod yr argymhellion a wnaed o dan Adran 25(2)

| Cyfeirnod | Argymhelliad |
|---|---|
| A1 | Maen rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru sefydlu camau clir a chadarn ar gyfer adolygu'r datganiadau ariannol ar ôl iddynt gael eu diweddaru, a dylid cymryd y camau hynny'n brydlon fel bo modd canfod diwygiadau'n fuan a'u cywiro cyn cyflwyno fersiwn 14 o'r datganiadau i Swyddfa Archwilio Cymru. |
| A2 | Mae'n rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru lunio dogfen rheoli ansawdd i gefnogi, tystio a chymeradwyo'r adolygiad o'r datganiadau sydd i'w cyflwyno i Swyddfa Archwilio Cymru. |
| A3 | Mae'n rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ddarparu copi o'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd er mwyn cynnal adolygiad sicrwydd ansawdd o'r datganiadau diwygiedig â'r trywydd archwilio ategol. |

Bwriedir i'r argymhellion hyn gefnogi gwaith i baratoi datganiadau ariannol diwygiedig sydd yn gywir a theg ym mhob ffordd berthnasol, ac a gefnogir gan drywydd archwilio clir. Yn y cyfamser, mae croeso i chi gysylltu â mi neu â Marc (07748 181679) os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bwyntiau i'w cadarnhau.

Yn gywir

Anthony Barrett

Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol,

Ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

copi i: Chris Davies, Prif Swyddog Tân
Y Cynghorydd Terry Hennegan, Cadeirydd y Pwyllgor Perfformiad, Archwilio a Chraffu
Kevin Jones, Prif Swyddog Cynorthwyol
Claire Williams, Swyddog Adran 151
David Daycock, Clerc a Swyddog Monitro
Sarah Mansbridge, Pennaeth Cyllid

# Atodiad 3

## Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17

### Dangosyn 3 – argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2016 | Diogelwch Cymunedol yng Nghymru | Roedd angen i amrywiaeth o randdeiliaid - sef Llywodraeth Cymru, Tîm y Swyddfa Gartref yng Nghymru, comisiynwyr yr heddlu a throseddu, aelodau bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ac awdurdodau lleol - gymryd camau unigol ac ar y cyd er mwyn ymateb i'r saith argymhelliad yn yr adroddiad hwn:<br>A1 Gwella gwaith cynllunio strategol er mwyn cydgysylltu gweithgarwch ar gyfer diogelwch cymunedol yn well drwy gyflwyno strategaeth genedlaethol i ddisodli'r fframwaith cynllunio presennol, a chefnogi hynny â chynlluniau lleol a rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol cytunedig o ran diogelwch cymunedol.<br>A2 Gwella gwaith partneriaeth strategol drwy greu byrddau diogelwch cymunedol effeithiol yn ffurfiol i ddisodli strwythurau diogelwch cymunedol presennol. Dylai'r byrddau newydd hyn ffurfioli a chyfuno gwaith Llywodraeth Cymru, heddluoedd, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, awdurdodau tân ac achub, WACSO a rhanddeiliaid allweddol eraill.<br>A3 Gwella gwaith cynllunio drwy greu cynlluniau gweithredu cynhwysfawr sy'n trafod gwaith yr holl bartneriaid, ac yn nodi'n glir sut y gellir cyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer diogelwch cymunedol, yn lleol ac yn rhanbarthol.<br>A4 Adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer ariannu grantiau a symud tuag at gyllidebau cyfun ac iddynt ymrwymiadau ariannu tymor hwy er mwyn helpu cyrff cyflawni i wella gwaith cynllunio prosiectau a'r gweithlu gan ganolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r strategaeth diogelwch cymunedol genedlaethol.<br>A5 Sicrhau bod perfformiad o ran diogelwch cymunedol yn cael ei reoli'n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol ar bob lefel i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i farnu ynghylch cynnydd wrth gyflawni camau gweithredu ar gyfer gwasanaethau diogelwch cymunedol;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol; a<br>• sefydlu dulliau mesur i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith, fel bo modd deall effaith penderfyniadau buddsoddi a chefnogi gwaith goruchwylio a chraffu. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2016 | Diogelwch Cymunedol yng Nghymru | Roedd angen i amrywiaeth o randdeiliaid - sef Llywodraeth Cymru, Tîm y Swyddfa Gartref yng Nghymru, comisiynwyr yr heddlu a throseddu, aelodau bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ac awdurdodau lleol - gymryd camau unigol ac ar y cyd er mwyn ymateb i'r saith argymhelliad yn yr adroddiad hwn:<br>A6 Diwygio'r systemau ar gyfer rheoli diogelwch cymunedol a chyflwyno trefniadau monitro ac adolygu sy'n canolbwyntio ar roi sicrwydd i'r cyhoedd bod yr arian a gaiff ei wario ar ddiogelwch cymunedol yn creu canlyniadau gwell i bobl yng Nghymru.<br>A7 Gwella'r dull o ymgysylltu a chyfathrebu â dinasyddion drwy fyrddau gwasanaeth cyhoeddus wrth:<br>• ddatblygu cynlluniau a blaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu; a<br>• adrodd ar berfformiad a gwerthuso effaith. |
| Ionawr 2017 | Y Modd y mae Awdurdodau Lleol yn Ariannu Gwasanaethau'r Trydydd Sector | Gwnaed tri argymhelliad yn yr adroddiad hwn, yr oedd yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu ynghylch dau ohonynt. Roedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru weithredu ynghylch Argymhelliad 3:<br>A1 Er mwyn cael y gorau o benderfyniadau ariannu, mae angen i awdurdodau lleol a chyrff y trydydd sector sicrhau bod ganddynt y trefniadau a'r systemau cywir ar waith i gefnogi eu gwaith â'r trydydd sector. Er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol a chyrff y trydydd sector i ddatblygu eu harferion gwaith, argymhellir y dylai swyddogion awdurdod lleol a'r trydydd sector ddefnyddio'r Rhestr wirio i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymgysylltu â'r trydydd sector ac yn gweithio gydag ef yn effeithiol i:<br>• hunanwerthuso ymgysylltu, rheoli, perfformiad ac arferion cyfredol o ran y trydydd sector;<br>• canfod lle mae angen gwella'r trefniadau cydweithio; a<br>• drafftio a rhoi cynllun gweithredu ar waith ar y cyd er mwyn ymdrin â'r bylchau a'r gwendidau a welwyd wrth hunanwerthuso.<br>A2 Mae trefniadau rheoli perfformiad gwael yn gwanio atebolrwydd ac yn cyfyngu ar y gallu i graffu'n effeithiol ar weithgarwch a pherfformiad y trydydd sector. Er mwyn atgyfnerthu'r oruchwyliaeth dros y trydydd sector, argymhellir y dylai aelodau etholedig graffu ar y rhestr wirio adolygu a gwblhawyd gan swyddogion, a herio perfformiad swyddogion a'r awdurdod lleol yn rheolaidd wrth ymateb i fylchau a gwendidau. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru